



**CYNGOR TREF
LLANFAIRFECHAN
TOWN COUNCIL**



**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB
Maer Cyng Sharne-Marie Bellis Dirprwy Faer Cyng Preben Vangberg**

CYFARFOD Y CYNGOR TREF, Medi'r 9fed, 2026, 7yh, Agenda

- 1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol**
- 2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Mae Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn bod cofnod yn cael ei gadw o'r aelodau sy'n bresennol a bod y cofnod hwn yn rhan o gofnodion y cyfarfod.
- 3. Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan yr Aelodau**

Datganiadau o ddiddordeb – yr aelodau i ddatgan unrhyw ddiddordeb a allai fod ganddynt yn eitemau'r agenda sy'n cyd-fynd â gofynion Rheoliadau 2012 (Diddordebau Ariannol Datgeladwy) awdurdodau perthnasol (SI 2012/1464) (DS nid ydy hyn yn atal unrhyw ddatganiadau diweddarach).
- 4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd a sylwadau gan John Clark – Aelod y Senedd dros Fangor, Conwy a Môn.**
- 5. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22/07/2026 DLIL 1972 Atodlen 12 para 41(1) ac adolygu'r rhestr weithredu.**
- 6. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Staffio**
- 7. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**
- 8. Derbyn a chymeradwyo'r cais i ychwanegu placiau coffa ychwanegol i'r meinciau pren ar y Cob.**
- 9. Derbyn a chymeradwyo ceisiadau Grant A137**
 - a. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Babanod
 - b. Clwb Golff Llanfairfechan
 - c. Cymdeithas Hanes Iddewig Cymru
- 10. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Llythrennau Bwrdd y Maer**
- 11. Derbyn cais gan Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu i Gynghorwyr ymuno gydag o yn y digwyddiad Paned gyda Heddwes**
- 12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer 09/09/2026.**

1. Salary, Pensions, HMRC (August) (Retrospective)
2. FILCA - £168.00 (Retrospective)
3. AVAST Antivirus (Equalities Officer) - £36.78 (Retrospective)
4. Screwfix MUGA PPE - £66.97 (Retrospective)
5. BrightHR £235.76 (Direct Debit) (Retrospective)
6. Microsoft License - £27.26 (Retrospective)
7. Amazon Oil for MUGA Machine - £12.49
8. Salary, Pensions, HMRC (September)
9. Amazon Business Subscription - £114.00
10. Laptops Direct (Equalities Officer) - £376.14
11. Npower July 9 (Village Road Toilets) Bill - £64.18
12. Llan Decorators paint and referb to Village Road Toilets - £460.00
13. Scribe Accounts August INV-21273 - £88.80
14. Scribe Accounts September INV-22208 - £88.80
15. WorldCare - Pendalar Community Skip £258.00
16. WorldCare – Station Road August Skip £258.00
17. WorldCare – Station Road July Skip £258.00
18. Sional – Pendalar day banners - £60.00
19. Sional – Sandcastle banner - £60.00
20. Amazon Office Supplied - £20.97
21. SPONSORSHIP Promenade public toilets - £14,627.33
22. Menter Iaith Conwy Translation Service - £614.79
23. Annual SLCC membership - £253

13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio

[0/53654](#) Ty'n Coed, Y Clos, Llanfairfechan, LL33 0AD

[0/53607](#) Ysbyty Bryn Y Neuadd, Uned Ddiogel Tŷ Llewelyn, Ffordd Aber, Llanfairfechan, LL33 0HH

[0/53605](#) Cymrodoriaeth Efengylaidd, Ffordd y Felin, Llanfairfechan LL33 0TG

14. Derbyn gohebiaeth:

1. Tipio Anghyfreithlon yn Afon Ddu ~ 2. Bwrdd Hinsawdd a Natur Llywodraeth Cymru ~ 3. Y diweddaraf am y Parth Dim Cŵn ~ 4. Parcio ger y lanfa ac ar y promenâd ~ 5. Nodi'r cais grant posibl sydd ei angen gan y Clwb Bowllo ~ 6. Tafarn Llanfair Arms ~ 7. Taith dywys o gyfleuster prosesu gwastraff mwyaf CBSC yng Ngofor, Abergele

15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau

16. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

Dydd Mercher, Medi'r 9fed, 2026, 2026

CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams

COFNODION

Yn bresennol: Cadeirydd: Maer Sharne-Marie Bellis; Dirprwy Faer Preben Vangberg; Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow (ar-lein); Cyng. Rhys Griffiths; Cyng. Andrew Hinchliff BEM; Cyng. Charlotte Murray; Cyng. Nia Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Christine Roberts; Clerc y Dref Jayne Neal; Dirprwy Glerc y Dref Callum Morrison

1. Croeso Croesawodd y Maer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a chytunwyd recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion.

Penderfynwyd derbyn a nodi

2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLIL 1972 Atodlen 12)

Cyng. Chris Jones; Cyng. Leena Farhat

Penderfynwyd derbyn a nodi

3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb– (Diddordeb personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)

Datganodd y Cyng. Rhys Griffiths ddiddordeb yn Eitem 9.b. Cytunwyd nad oedd hyn yn ddiddordeb rhagfarnus, felly ni wnaeth y cynghorydd adael yr ystafell

Penderfynwyd derbyn a nodi

4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd

Doedd dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol a ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. Nid oedd Aelod y Senedd yn bresennol

Penderfynwyd derbyn a nodi

5. Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10/06/2026 ac adolygu'r Rhestr Weithredu (DLIL1972 Atodlen.12)

Cafodd y rhain eu dosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd eu bod wedi'u darllen. Doedd dim materion yn codi o'r cofnodion. Cymeradwywyd y cofnodion fel cofnod cywir. Rhannodd y Dirprwy Glerc y diweddaraf am y Rhestr Weithredu:

- 1. Toiledau Ffordd y Pentref** – Mae'r toiledau bellach wedi'u peintio. Fe gwblhaodd Llan Decorators y gwaith ac maen nhw wedi mynd y tu hwnt i'r galw o ran y gwaith gwreiddiol am yr un gost, felly fe estynnwyd diolch am hyn. Mae'r holl waith peintio allanol wedi'i gwblhau, y rendro, y bibell ddŵr a'r arwyddion. Roedd yr adborth yn ardderchog a bu'n brosiect gwerth chweil. Mae wedi dangos pa mor bwysig ydy bod toiledau cyhoeddus o safon ar gael i'r preswylwyr.
- 2. Marchnadoedd Bwyd a Chrefft** – Bydd y marchnadoedd yn ail-gychwyn ar ddydd Sul, Medi'r 27^{ain} a byddwn yn chwilio am gynorthwyyr ar y diwrnod. Y thema ydy'r Cynhaeaf a bydd Grŵp y Berllan yn cynnig lluniaeth ac yn sgwrsio am eu prosiect nhw.
- 3. Prosiect Cydraddoldeb a'r sesiwn Paned a Sgwrs** – Mae'r sesiynau Paned a Sgwrs wedi parhau dros yr haf ac mae mwyfwy yn dod i bob sesiwn. Nid yw'r Swyddog Cydraddoldeb wedi mynychu ambell un o'r sesiynau hyn ac mae'r gwirfoddolwyr wedi gallu cymryd yr awenau, felly mae'n amlwg bod y grŵp yn datblygu'n dda. Cafodd cysylltiadau eu meithrin gyda grŵp Penmaenmawr yn y Gladstone felly fe gynhaliwyd sesiwn ar y cyd fel digwyddiad cymdeithasol.
- 4. Diwrnod Cestyll Tywod** – roedd yn llwyddiant ysgubol gyda mwy o bobl yn cymryd rhan. Bu i 18 tîm gymryd rhan felly roedd oddeutu 80 o oedolion a phlant yn bresennol. Roedd safle'r traeth a'r llanw yn ddelfrydol oherwydd ymhen 5 munud inni wobrwyo'r enillwyr, roedd y llanw yn ysgubo tuag at y cestyll tywod. Fe wnaeth hynny ychwanegu at yr hwyl oherwydd bod pawb wedi adeiladu ffosydd o amgylch y cestyll tywod ac felly roedd modd iddyn nhw weld eu ffosydd yn llenwi. Fe arhosodd pawb i wyllo a mwynhau derbyn eu tystysgrifau cymryd rhan a'r seremoni wobrwyo.

5. **Digwyddiad Dinesig y Maer** – Cynhaliwyd lansiad Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan hefyd fel rhan o'r digwyddiad hwn ac roedd yn ddigwyddiad arbennig. Daeth digonedd o bobl i'r gwasanaeth eglwysig a'r digwyddiad cymdeithasol, gydag oddeutu 80 yn mwynhau'r prynhawn. Roedd y côr a bwffe y Maer yn boblogaidd dros ben ac roedd yr adborth yn ardderchog. Roedd gan y Maer Sharne syniad da i ail-gyflwyno gwasanaeth eglwys dinesig, oherwydd o safbwynt cydweithio, roedd yn wych meithrin y cysylltiad hwnnw.
6. **Diwrnod Cymunedol Pendalar** – Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil gydag oddeutu 80 o bobl yn bresennol yn ystod y prynhawn, ac yna roedd 10 person wrthi'n codi sbwriel yn y bore, ac aeth pawb ati mewn timau i gasglu. Casglodd y timau codi sbwriel gyfanswm o wyth bag o sbwriel. Roedd hynny'n wych. Diolch yn fawr iawn i'r Dirprwy Faer am ddefnyddio eich lwfans i dalu am 40 hufen iâ i'r plant. Nodwyd bod ychwanegu'r Swyddog Cydraddoldeb yn gwneud byd o wahaniaeth i'r digwyddiadau cymunedol, nid yn unig oherwydd yr agwedd ddwyieithog ond mae hefyd yn golygu bod person cwrdd a chyfarch amlwg fel pwynt cyswllt i bawb sy'n cymryd rhan.
7. **Symud cyfeiriadau E-bost a'r Wefan i barth newydd** – bu'r broses o drosglwyddo i llyw.cymru yn rhwydd a ddidrafferth, diolch i bawb sydd wedi cymryd yr awenau dros y systemau e-bost yn gyflym ac i'r Dirprwy Glerc am yr holl waith i gwblhau hyn. Roedd cytundeb cyffredinol bod y system yn welliant ac roedd dim ond un broblem fach gyda hysbysebion y mae modd ei ddatrys drwy ddad-danysgrifio yn y system e-bost. Bellach mae'r holl staff a chynghorwyr ar y system, a bydd yn sicrhau bod y broses o gynllunio cyfarfodydd a gohebiaeth eraill yn llawer haws.
8. **Archebion Gostyngol i'r Ardal Gemau Amldefnydd** – Mae dal angen casglu'r cyllid ar gyfer yr haf, ond mae'r dystiolaeth o'r archebion yn dangos bod y cyrtiau wedi cael defnydd helaeth dros yr haf. Mae yna hefyd nifer gyson o drigolion sydd wedi ymgeisio ar gyfer y cynllun gostyngiadau, a bu hyn yn barhaus ers diwrnod lansiad y system newydd. Bellach mae gostyngiad yr haf wedi'i ddileu, ac mae'r prisiau'n ôl i'w costau arferol. Nodwyd y gallai'r pwyllgor cyfleusterau fod eisiau cwrdd ac adolygu'r costau cyn pennu'r archebiant sydd ar y gweill. Mae'r gwaith i sicrhau diogelwch gyda gwaiail metel ar y giatiau 3g wedi'i gwblhau gan y CIA ac mae'r anfoneb am gael eu galw allan wedi'i thalu. Mae rhwyll y ffens wedi'i hatgyweirio dros dro, a bydd y staff yn goruchwyllo ac yn cysylltu â'r gof os oes angen gwaith pellach.
9. **TG ar gyfer y Swyddog Cydraddoldeb** – Mae'r caledwedd cyfrifiadurol wedi'i brynu ar gyfer y Swyddog Cydraddoldeb, ac mae'n gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r llwyth gwaith.

Cynigwyd gan y Cyng. Nia Jones Eiliwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

6. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Staffio

1. Fe wnaeth y pwyllgor staffio gwrdd i drafod y newidiadau arfaethedig i'r staff a fydd yn fodd i Glerc y Dref gamu lawr fel Dirprwy fel rhan o gynllun tuag at ymddeol. At hyn, bydd y Dirprwy Glerc, sydd bellach wedi'i hyfforddi'n llawn yn ILCA, CILCA a FILCA, yn cymryd yr awenau fel Clerc y Dref. Mae Adnoddau Dynol Bright wedi'u hysbysu o'r cynllun eisoes ac maen nhw wedi cynghori bod yr amgylchiadau yn bodloni'r gofynion recriwtio cyfreithiol.
2. I hwyluso'r pontio, dosbarthwyd dogfen Cyfrifoldebau Staffio a Dyrannu Rolau i'r Pwyllgor Staffio ac roedd ar gael i'r Cynghorwyr ei ddarllen – cytunwyd mabwysiadu'r ddogfen hon. O hyn ymlaen, fe fydd Clerc y Dref a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn bodloni holl ofynion y tasgau Archwilio a Swyddog Priodol, a bydd y Dirprwy Glerc yn gyfrifol am y digwyddiadau cymunedol, y ceisiadau grant a'r prosiectau allanol, adrodd a'r marchnadoedd.
3. Dosbarthwyd Datganiad Model AD Bright o Brif Delerau Cyflogaeth. Nodwyd bod y ddogfen hon yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth newydd a chyingor Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ar gontract swydd enghreifftiol. Gellir ei addasu i unrhyw rôl swydd, wrth gydymffurfio â'r meini prawf AD priodol. Cytunwyd y dylid mabwysiadu'r ddogfen i'w defnyddio.
4. Cafodd taflen gyllid staffio ei rhannu a'i thrafod. Gellir cwblhau'r newidiadau arfaethedig o fewn y gyllideb, ac mae hyn yn cynnwys y setliad NJC sy'n gofyn am gynnydd o 3.3% wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2026. Roedd y llythyr Dyfarniad Cyflog Cenedlaethol ar gael i'w darllen, ac roedd yn datgan gofynion y cyfraddau cyflog newydd a setliad cyflog. Cytunwyd ar hyn fel rhan o'r addewid i barhau i gydymffurfio gyda Graddfeydd Cyflog NJC (Llyfr Gwyrdd).
5. Mae Llawlyfr Cyflogwyr wedi'i baratoi gan AD Bright ac mae ar gael i'w ddwyn i ystyriaeth. Mae'n ddogfen sylweddol felly caiff penderfyniadau am hyn eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd bod angen i'r llawlyfr gynnwys yr holl ddeddfwriaeth newydd felly nid oes llawer o ddewis o ran ei gynnwys. Fodd bynnag, gellir anfon unrhyw ymholiadau at AD Bright a'u gwirio yn erbyn gofynion deddfwriaethol gan ddefnyddio eu cynghorydd dynodedig.

Cynigwyd gan y Cyng. Charlotte Murray Eiliwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

7. Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid

Roedd y pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod i dderbyn gwybodaeth am Scribe, y system cyllid ac archwilio newydd.

Nodwyd bod Scribe yn caniatáu llawer mwy o gyfle i rannu gwybodaeth ac mae'n system archwilio cyllid parhaus a fydd yn gymorth mawr yn ystod yr adeg archwilio. Drwy gydol y flwyddyn, bydd modd i'r cynghorwyr fanteisio ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw'n uniongyrchol er mwyn gwneud penderfyniadau doeth am wario a bydd y broses o bennu archebiant yn haws gyda dealltwriaeth eglur o'r arian sy'n weddill ym mhob cod cyllideb. Bydd hefyd yn gymorth gyda chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi – bydd cronfeydd wrth gefn bellach yn cael eu neilltuo i'r cod cyllideb ac felly bydd cynghorwyr yn gwybod yn union beth sydd wedi'i gynilo ar gyfer pa brosiect.

1. Newid mawr wedi'i gyflwyno gan system rheoli cyllideb Scribe ydy defnyddio mwy o ganolfannau cost a chodau cost i ddatblygu cyllidebau wedi'u targedu ar gyfer gwahanol feysydd gwaith. Mae hyn yn bwysig erbyn hyn gan fod ein gwaith yn ymwneud ag ystod mor eang o gyllid a phrosiectau.
2. Cytunwyd y bydd **Crynodeb y Ganolfan Gost** yn cael ei ddarparu i'r cyngor llawn yn fisol
3. Cytunwyd defnyddio'r **Rhestr Aros am Awdurdodaeth** ar gyfer arwyddo a bydd yr holl anfonebau ar gael i'w darllen yn y ffolder taliadau cyfredol.
4. Cytunwyd y bydd y **Rhestr Trafodion** misol a'r 3 x datganiad cyfrif banc ar gael i'r Maer a'r Dirprwy Faer i'w gwirio a'u llofnodi cyn neu yng nghyfarfod y Cyngor Tref.
5. Nodwyd y bydd gan y Pwyllgor Cyllid llawn fynediad darllen yn unig i'r system gyfrifyddu Scribe er mwyn iddyn nhw allu gwirio'r sefyllfa ariannol unrhyw bryd. Gallai aelodau eraill o Gyngor Tref Llanfairfechan ofyn am fynediad drwy gysylltu ag Aelodau'r Pwyllgor Cyllid a chael mynediad drwyddyn nhw. Bydd hyn yn helpu gyda thryloywder ac yn helpu gyda llwythi gwaith staff.
6. Pwynt allweddol ydy y gellir llunio tabl ar gyfer un cod cyllideb ac felly gellir ei ddefnyddio yn y pecynnau cyfarfod i ddangos ciplun o unrhyw wasanaeth yn y cyngor tref. Yn y cyfarfod hwn bydd yn cael ei ddefnyddio i ddangos sefyllfa bresennol grantiau A137 ac mae ar gael ar dudalen 8 y pecyn cyfarfod.
7. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid hefyd â'r daflen gyllid staffio Hydref – Mawrth a'r codiadau cyflogau a'r trefniadau y cytunwyd arnyn nhw.
8. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid am y gofynion ariannu ar gyfer rhaglen adfer Gerddi Fictoria. Dywedon nhw y byddan nhw'n cymeradwyo'r gwaith atgyweirio llai: 2x sedd siglen + chadwyni (oddeutu. £75 fesul set) a darn matiau rwbwr ar siglenni sedd y plant bach (oddeutu. £300). Bydd angen ariannu'r tasgau mwy, gan gynnwys y lloches o bosib, gyda grantiau allanol a bydd y Dirprwy Glerc yn cyflawni hyn er mwyn gallu cwblhau'r gwaith yn y 12 mis nesaf.
9. Mae yna gais am aelod Pwyllgor Cyllid ychwanegol ar gyfer y grŵp. Caiff hyn ei ychwanegu i'r agenda nesaf.

Cynigwyd gan y Cyng. Charlotte Murray Eiliwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

8. Derbyn a chymeradwyo cais i ychwanegu placiau coffa ychwanegol i'r meinciau pren ar y Cob.

Gofynnodd preswlydd i hyn gael ei ail-asesu gan y Cyngor Tref llawn. Cafodd hyn ei drafod a'i ddwyn i ystyriaeth gan yr holl aelodau. Cytunwyd cynyddu'r placiau i ddau bob ochr (pedwar i gyd) fel eu bod yn gymesur. Cynhaliwyd trafodaeth ehangach am feinciau eraill a'r ffordd y gellir eu defnyddio gyda chofebion, cytunwyd efallai bod angen dwyn i ystyriaeth y prosiect meinciau ymhellach yn y dyfodol.

Cynigwyd gan y Cyng. Rhys Griffiths Eiliwyd gan y Cyng. Christine Roberts Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

9. Derbyn a chymeradwyo Ceisiadau grant A137

- a. Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Babanod – Cymeradwywyd £500 i gwblhau'r prosiect llinellau ar y maes chwarae.
- b. Clwb Golff Llanfairfechan – Gofynnwyd am wybodaeth ariannol bellach ar y prosiect hwn – staff i e-bostio ac adrodd yn ôl
- c. Cymdeithas Hanes Iddewig Cymru – Gwrthodwyd y prosiect hwn gan nad oes cynsail i ariannu prosiect ymchwil academiaidd.

Cynigwyd gan y Cyng. Preben Vangberg Eiliwyd gan y Cyng. Nia Jones Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

10. Derbyn a chymeradwyo cynlluniau ar gyfer Llythrennau Bwrdd y Maer

Derbyniwyd dyfynbrisiau gan beintwyr ar gyfer y gwaith hwn – bydd yn costio £125 fesul enw ar gyfer rhai wedi'u peintio mewn aur neu £2.50 ar gyfer llythrennau gludiog. Staff i siarad gyda Chynghorau eraill i weld beth maen nhw'n ei wneud ac a allwn ni gysylltu fel grŵp i gyflawni hyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

11. Derbyn cais gan Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu i Gynghorwyr ymuno gydag o yn y digwyddiad Paned gyda Heddwys

Dosbarthwyd dyddiadau ar gyfer y sesiynau Swyddog Cefnogi Cymuned yr Heddlu yn y Neuadd Gymunedol a chytunwyd y byddai'n dda cefnogi. Casglwyd enwau a gofynnwyd am gyfeiriadau e-bost gan unrhyw un sy'n awyddus i fod yn rhan o hyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi

12. Derbyn a chymeradwyo'r taliadau cyfredol ar gyfer 09/09/2026.

Roedd y llofnodwyr wedi defnyddio'r system Scribe newydd i lofnodi ac roedd yn llawer gwell yn ôl nhw. Cymerwyd taliadau ac adroddiadau gyda'i gilydd. Cafodd yr Adroddiad Cyllid arddull newydd ei rannu a'i nodi gan bawb hefyd, ac roedd y Maer a'r Dirprwy Faer wedu gwirio a llofnodi'r Rhestr Trafodion.

Cynigwyd gan y Cyng. Andrew Hinchliffe BEM Eiliwyd gan y Cyng. Nia Jones Yn Unfrydol; Penderfynwyd cymeradwyo a nodi

13. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio

Mae'n rhaid i'r Cyngor Tref ddwyn i ystyriaeth Adran 6 Awdurdod Cyhoeddus Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ar gyfer ein holl brosesau yn Llanfairfechan. Ein nod gyda cheisiadau cynllunio ydy cynnig ein sylwadau ar faterion materol yn unol â'r ddeddfwriaeth gynllunio a gellir gweld ein sylwadau am y ceisiadau isod:

0/53654 Ty'n Coed, LL33 0AD – Cais i ddilyn cyngor swyddog coed CCBC.

0/53607 Ysbyty Bryn Y Neuadd, LL33 0HH – Dim arsylwadau wedi'u cofnodi, dilynwch ganllawiau Swyddog Cynllunio CBC..

0/53605 Cymrodoriaeth Efengylaidd LL33 0TG – Dim arsylwadau wedi'u cofnodi, dilynwch ganllawiau Swyddog Cynllunio CBC. **Penderfynwyd derbyn a nodi**

14. Derbyn gohebiaeth:

1. Tipio anghyfreithlon yn Afon Ddu – eglurhad bod tipio anghyfreithlon yn yr afon o fewn '*hawliau glannau*' ac felly mae gan y tîrfeddiannwr gyfrifoldeb i 'gadw glannau a gwely'r cwrs dŵr ar eu heiddo yn glir o rwystrau er mwyn sicrhau bod dŵr yn llifo'n rhydd'. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ond yn clirio eitemau os oes perygl o lifogydd ac nid oes gan CBS Conwy unrhyw gyfrifoldeb am yr afon. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd iawn mynd i'r afael â'r mater a'r oll y gellir ei wneud ydy atgoffa tîrfeddiannwyr o'u cyfrifoldebau.

2. Bwrdd Hinsawdd a Natur Llywodraeth Cymru – cyswllt amlwg â'r gwaith ar fioamrywiaeth yn y dref. Staff i gysylltu.

3. Y diweddaraf am y Parth Dim Cŵn – Mae CBSC wedi egluro bod yr arwyddion newydd yn sgil y newid mewn deddfwriaeth. Mae'r arwyddion yn gywir a dim ond newydd gael eu gosod.

4. Parcio ger y lanfa ac ar y promenâd – mae CBSC wrthi'n trafod y mater ac mae'n anodd cytuno ar benderfyniad. Nid priffordd ydy'r ardal felly nid oes modd gosod rheoliadau parcio ffurfiol. Efallai mai arwyddion anffurfiol fyddai'r ateb. Cynhaliwyd trafodaeth lawn, ac roedd y cynghorwyr yn teimlo'n rhwystredig gyda'r prosiect. Gofynnwyd i'r staff drefnu cyfarfod safle gyda Phennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth, Parcio ac Aelod Cabinet Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau i egluro sefyllfa popeth sy'n gysylltiedig â'r maes parcio. Mae'r problemau wedi para llawer rhy hir a hoffai'r Cyngor Tref gael atebion.

5. Nodi'r cais grant posibl sydd ei angen gan y Clwb Bowlio – Bydd hwn ar yr agenda nesaf ond mae'n debyg y bydd yn swm uchel iawn oherwydd mae angen cyflawni gwaith sylweddol ar y safle.

6. Tafarn Llanfair Arms – Mae'r mater hwn wedi'i drafod yn flaenorol, ac mae'r Cyngor Tref wedi mynegi eu barn yn eglur. Nid ydyn nhw am i hyn ddychwelyd i'r Cyngor ac maen nhw'n ystyried ei fod yn fater preifat ar gyfer perchennog yr adeilad. Os oes angen ystyried prosiect cymunedol, yna fe fydd angen cynnal ymgynghoriad yn uniongyrchol gyda'r grŵp preswylwyr.

7. Taith dywys o amgylch cyfleuster prosesu gwastraff mwyaf CBSC yng Ngofer, Abergele – Cynghorwyr i e-bostio'r Dirprwy Glerc i nodi eu henwau ar gyfer hyn.

15. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau

1. Darganfod Llanfairfechan – Gofynnwyd am luniau ar gyfer y calendr, ac fe gaiff y calendr ei hargraffu yn fuan. Yn anffodus, ni chafodd y lluniau o'r Wythnos Gelfyddydau eu cymeradwyo ar gyfer y calendr eleni.

2. Adroddiad y Maer – Mae wedi bod yn amser prysur a llawn mwynhad dros fisoedd yr haf:

a. Roedd beirniadu'r gystadleuaeth cestyll tywod yn anodd ei feirniadu ond roedd yn llawer iawn o hwyl

b. Roedd y digwyddiad dinesig yn llwyddiannus dros ben

c. Roedd yr wythnos gelfyddydau'n werth chweil - 330+ o bobl ar gyfer yr arddangosfa gelf a'r ffair, 400+ wedi cymryd rhan yn y dros 40 o'r sesiynau celf a 500+ wedi mynychu'r gigiau cerddoriaeth a'r digwyddiad dinesig

d. Wedi mynychu'r digwyddiad Onam yn y Neuadd Gymunedol ac roedd yn ardderchog

e. Wedi mynychu Gwasanaeth Dinesig Bae Colwyn ac roedd yn ddigwyddiad dymunol dros ben

f. Wedi mynychu ail-agoriad campfa UNIT 3 ar yr ystâd ddiwydiannol ac mae'n edrych yn wych ar ôl y gwaith ailwampio.

3. Adroddiad cyfarfod am Galan Gaeaf Llanfairfechan – Mae diffyg o £1600 ar gyfer ariannu'r penwythnos cyfan. Mae wedi bod yn anodd dod o hyd i gyllid yn sgil pwysau Wythnos Gelfyddydau Llanfairfechan. Cytunwyd y dylid cefnogi'r prosiect oherwydd ei fod wedi bod yn fanteisiol ar gyfer y dref. Yn y tymor byr, gellir cyllidebu'r cyllid, a bydd y staff yn gwneud pob ymdrech i ddod o hyd i gyllid pellach i helpu gyda dathliadau'r Nadolig.

4. Cyfarfod adolygu'r banc bwyd gyda CBS Conwy – gall hyn arwain at gegin newydd ar gyfer Hwb Ray Jones o ganlyniad i'r Banc Bwyd yn yr adeilad a'r partneriaethau maen nhw'n eu meithrin. Rhoddodd 11 person adborth am bwysigrwydd y Banc Bwyd ac roedd wedi cael argraff fawr ar CBS Conwy.

5. Cynghrais Pobl Hŷn Cymru— gwahoddwyd y rheiny sy'n rhan ohono i gyfarfod o bell yn y Neuadd Gymunedol. Caiff cinio ei ddarparu a chaiff adborth gan y rheiny sy'n cymryd rhan ei werthfawrogi. Dydd Mercher, Hydref y 7^{fed}.

Penderfynwyd derbyn a nodi

16. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol

1. Derbyniwyd llythyr dienw ond, nodwyd fel mater o drefn na ellir trafod y mater gan ei fod yn ddienw.

2. Cais i ychwanegu'r Swyddog Cydraddoldeb at Whats App.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:50yh